# Tasg amser teledu

Family Maths Toolkit

**A oes gennych hoff raglenni teledu? Pa mor hir ydynt? Dychmygwch eich bod yn cael y teledu i chi'ch hun am ddiwrnod cyfan, neu fod gennych swydd ym myd y teledu a'ch bod yn cael dewis beth sydd i fod ar yr amserlen.**

Ysgrifennwch amserlen o'r hyn y byddech yn ei wylio, neu'r hyn y byddech yn ei ddangos i bobl.

A fyddech yn gadael i un neu ddau aelod o'ch teulu gael un rhaglen yr un?

Ble y byddai eu dewisiadau yn ffitio yn eich amserlen?



**Sylwadau'r teulu:**

**Sylwadau'r plentyn:**

### Cyswllt Cwricwlwm

Amcangyfrif a darllen amser i'r funud agosaf gyda manwl gywirdeb cynyddol; cofnodi a chymharu amser yn nhermau eiliadau, munudau, oriau ac o'r gloch; defnyddio geirfa megis a.m./p.m., bore, prynhawn, hanner dydd a hanner nos.

**nationalnumeracy.org.uk**

National Numeracy Getting on with numbers

Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669

# Rysáit cacennau cwpan

Family Maths Toolkit

## Dyma rysáit ar gyfer 12 cacen gwpan:

Cynhwysion

- 110 g/4 owns o fenyn neu fargarîn (wedi'i feddalu)
- 110 g/4 owns o siwgr mân
- 2 wy, wedi'u curo'n ysgafn
- 1 llwy de o rin fanila
- 110 g/4 owns o flawd codi

Ar gyfer y menyn hufen:

140 g/5 owns o fenyn, wedi'i feddalu; 280 g/10 owns o siwgr eisin; 1-2 lwy fwrdd o laeth; ychydig ddiferion o liw bwyd



Siaradwch am y byrfoddau – beth y mae 'g' yn ei olygu? Sawl gram sydd mewn cilogram? Faint y mae'r pecyn o siwgr mân yn ei bwyso? Faint yr ydych yn meddwl y byddai 1 llwy fwrdd o siwgr yn ei bwyso? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng llwy de a llwy fwrdd? A fyddai'n gwneud gwahaniaeth petaech yn drysu rhyngddynt?

Mae'r rysáit hon yn gwneud 12 cacen fach – faint y byddai pob aelod o'ch teulu yn eu cael?

Pe byddech am gael parti, beth a fyddai'r cynhwysion ar gyfer 24 cacen?

Faint o gacennau y gallwn eu gwneud pe na fyddai gennyf fwy na 55 g/2 owns o fenyn? Rhowch gynnig ar y rysáit!

**Sylwadau'r teulu:**

**Sylwadau'r plentyn:**

**Cyswllt Cwricwlwm**

Mesur, cymharu, adio a thynnu màs (g/kg); cymharu mesurau, gan gynnwys graddio syml,
er enghraifft 2 waith cymaint, a chysylltu â lluosi.

**nationalnumeracy.org.uk**

National Numeracy Getting on with numbers

Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669

# Ystafelloedd – onglau sgwâr a phetryalau

Family Maths Toolkit


**Pan fydd asiantiaid eiddo yn gwerthu tai, maent yn dangos/hysbysebu meintiau pob ystafell. Mesurwch eich ystafell wely i ganfod y perimedr**

Mae ystafelloedd yn aml yn betryal o ran eu siâp ac yn cynnwys 4 ongl sgwâr.

• A oes gan eich cartref unrhyw ystafelloedd nad ydynt yn betryal?

• Sut y gallech eu mesur? Faint o onglau sgwâr sydd ganddynt?

• A allech ddylunio ystafell heb i bob ongl fod yn sgwâr? Pa siâp fyddai'r ystafell a pha mor fawr fyddai hi?



**Sylwadau'r teulu:**

| |
|---|
| |

**Sylwadau'r plentyn:**

| |
|---|
| |

**Cyswllt Cwricwlwm**

Mesur a chymharu, adio a thynnu hydoedd (m, cm, mm); mesur perimedr siapiau syml; nodi onglau sgwâr.



National Numeracy
Getting on with numbers

Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669